

Cyfarfod o Grŵp Cyswllt Prosiect Wylfa Newydd

Cofnodion Grŵp Cyswllt Wylfa Newydd a gynhaliwyd ddydd Mawrth 19 Gorffennaf yn Swyddfa Safle Wylfa Newydd (Ystafelloedd Cemlyn)

Yn Bresennol:

Enw	Sefydliad
John Evans	A. Griffith Contractwr
Dennis Evans	Cadeirydd
Trevor Howes	CNC – Swyddog Cyswllt Rhanddeiliaid /Gorsaf Bŵer Niwclear Newydd
Gareth Jones	I gael ei gadarnhau
Eric Torr	Cwmni Cemaes Cyf / Ynni Talybolion
Elfred Jones	Cyngor Cymuned Llanbadrig
Medwyn Williams	Magnox Ltd
Katherine Williams	Medrwn Môn
Jaqueline Fenn	National Grid
Gareth Williams	National Grid
Mark Thornton	Is-gadeirydd Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru
Geraint Hughes	Tân ac Achub Gogledd Cymru
Dewi Morgan	Cynrychiolydd Cyngor Gwynedd
John Griffith	Talybolion
Kenneth P Hughes	Talybolion
Anna M Jones	Cyngor Cymuned Tref Alaw
Aled Morris Jones	Twrcelyn
Jackie Blackwell	Ynys Môn – Cyngor ar Bopeth
Margaret Thomas	Ynys Môn – Cyngor ar Bopeth
Y Cyhoedd	
Mel O'Hara	
Scot Saunders	

Ymddiheuriadau:

Enw	Sefydliad
John Chamberlain	Cymdeithas Amaethyddol Môn/Clwb Rotari Caergybi
Phil Scott	Partneriaeth Twristiaeth Môn
Hywel Williams	AS Arfon
Melanie Wymer	Ymddiriedolaeth Bodorgan
Andy Billcliff	CBI Cymru
Janet Finch Saunders	AC Conwy
Dafydd Elis Thomas	AC Dwyfor Meirionnydd
Liz Saville Roberts	AS Dwyfor Meirionnydd
Carys Edwards	Pennaeth Adnoddau Dynol
Enid Williams	Gwasanaeth Ieuenctid Ynys Môn
Cyng Ieuan Williams	Cyngor Sir Ynys Môn
Derek Owen	Cymuned Llanbadrig (Cadeirydd) / Llanfachraeth/ Bodffordd

Gwilym O Jones	Llifon
Richard Dew	Llifon
Stuart Law	Magnox Ltd
Jac Jones	Cyngor Cymuned Mechell
Albert Owen AS	Aelod Seneddol Ynys Môn
Meryl Davies	Merched y Wawr
Iwan Williams	Cyfoeth Naturiol Cymru
Nia Jeffreys	Cyfoeth Naturiol Cymru
Tim Jones	Cyfoeth Naturiol Cymru (cyn gynrychiolydd Cyngor Cefn Gwlad Cymru)
Maurice Core	Cynrychiolydd Safle NDA ar gyfer Gorsaf Bŵer Wylfa
Keith Williams	Gwasanaeth Ambiwlans Gogledd Cymru
Alli Hunt	Yr Academi Sgiliau Genedlaethol Niwclear
Steve Graham	Y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR)
Llinos Medi Huws	Talybolion
Mark Isherwood	Aelod Cynulliad Rhanbarth Gogledd Cymru
Tom Conway	Cymdeithas Gweithwyr wedi Ymddeol Wylfa
Jean Jones	Ysgol Syr Thomas Jones
Emyr Williams	Ysgol Uwchradd David Hughes
Peter Day	Ffederasiwn Busnesau Bach Ynys Môn
Aaron Bailey	Ysgol Syr Thomas Jones
Geraint Jones	Ysgol Syr Thomas Jones

Os yw eich enw wedi'i adael o'r rhestr hon yn anfwriadol, neu wedi'i gofnodi'n anghywir, cysylltwch â Horizon ar 0800 954 9516 neu yn [ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com](mailto:yholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com)

I gael gwybodaeth gyffredinol am y prosiect neu i ofyn cwestiynau i Horizon, cysylltwch â'r tîm ar 0800 954 9516 neu yn [ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com](mailto:yholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com) ac ewch i www.horizonnuclearpower.com

Mae'r cofnodion hyn a holl gyflwyniadau cyfarfod Grŵp Cyswllt y Prosiect ar gael yn www.wylfaplq.com

1. **Croeso, cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion yn codi - Dennis Evans, Cadeirydd**

- Croesawodd Dennis Evans (DE) bawb i'r cyfarfod am 5.30pm a chafwyd ymddiheuriadau gan y rhai a restrwyd uchod.
- Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir yn dilyn y cywiriad canlynol: mae Mark Thornton yn Is-gadeirydd (ac nid Cadeirydd) Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru.
- Gweithredwyd ar bob cam neu roeddent i ddilyn ar yr agenda.

2. **Cyflwyniad gan Sasha Davies – Pennaeth Datblygu Strategol Cymru, Pŵer Niwclear Horizon**

- Cyflwynodd y Cadeirydd a Chyfarwyddwr Gweithrediadau Wylfa Newydd **Sasha Davies (SD)** sy'n newydd i Bŵer Niwclear Horizon. Cyflwynodd **SD** drosolwg o'r prosiect a phrif amcanion ei rôl sydd newydd ei chreu, sy'n cynnwys cyfrifoldebau ar lefelau cymunedol, lleol a chenedlaethol.
- Cyflwynwyd **Delyth Owen (DO)**, Swyddog Cynnwys y Gymuned. Mae hi'n rhan o dîm lleol a fyddai'n helpu i gyflawni agenda cysylltiadau cyhoeddus Wylfa Newydd. Pwysleisiwyd bwysigrwydd cyfathrebu'n lleol, yn enwedig â phobl leol. Mae llawer o waith yn cael ei wneud i greu swyddi o dan fenter ar y cyd Menter Newydd ac mae llawer o gontractwyr eisoes ar y safle.
- Ychwanegodd **SD** fod ei chyfrifoldebau'n cynnwys cadw golwg ar waith y gadwyn gyflenwi, iaith a diwylliant, a budd cymunedol. O ran diwylliant, er enghraifft, mae'r tîm yn cydweithio'n agos, a hynny dros y tymor hir â'r Eisteddfod Genedlaethol, a fydd yn cael ei chynnal ym Môn y flwyddyn nesaf. Dywedodd ei bod yn awyddus i weithio ag aelodau'r Grŵp Cyswilt a'u sefydliadau i helpu i hyrwyddo gwaith Horizon ym mhob un o'r meysydd pwysig hyn.
- Dywedwyd y byddai prentisiaid newydd Horizon yn cychwyn fis Medi, a bod Horizon yn cydweithio'n agos â Grŵp Llandrillo Menai a Phrifysgol Bangor ar hyn ac ar lawer o brosiectau eraill yn y maes sgiliau ac addysg.
- Mae **SD** wedi'i lleoli yn Wylfa a dywedodd y byddai allan yn y gymuned gyda'i gwaith a'i bod yn edrych ymlaen at gwrdd a gweithio â phawb.

Rhoddwyd cyfle i bawb a oedd yn bresennol i ofyn cwestiynau ac i ychwanegu sylwadau:

- **Mark Thornton (MT)** – Gofynnodd MT a fyddai SD yn gallu rhoi cyflwyniadau i sefydliadau ar gynydd y Prosiect. Ymatebodd **SD** i'r cwestiwn gan ychwanegu mai hi oedd y sawl i gysylltu â hi oes oeddent angen gwybodaeth neu eu briffio am y prosiect.
- Ymddiheurodd **Cyng. Aled Morris Jones (AMJ)** ar ran Cadeirydd Cyngor Sir Ynys Môn. Canmolodd **AMJ SD** am ei gwaith a dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at gael gweithio â hi.

3. Diweddariad ar gynydd Prosiect Wylfa Newydd - Greg Evans, Cyfarwyddwr Cynhyrchu, Pŵer Niwclear Horizon

- Cyflwynodd **Greg Evans (GE), Cyfarwyddwr Cynhyrchu**, ddiweddariad ynghyd â sleidiau. Eglurodd fod pedwar uwch gyfarwyddwr yn cael eu cyflogi gan Horizon ar hyn o bryd, a dywedodd fod brwdfrydedd mawr ymhlith y tîm i fwrw ymlaen â'r prosiect a'i fod yn falch iawn o gael **SD** fel rhan o'r tîm. Roedd y sefydliad yn newid dros amser ac o ganlyniad, roedd gan ei swydd deitl newydd bellach (gweler uchod). Cafwyd cyflwyniad ar ei rôl ef ac ar rolau'r cyfarwyddwyr eraill.

- Cafwyd diweddariad ar y cynnydd a wnaethpwyd. Roedd Horizon yn awr yn alinio cynlluniau â'r flaenoriaeth allweddol i symud y prosiect ymlaen i benderfyniad buddsoddi terfynol (FID) a disgwylir i'r penderfyniad hwnnw gael ei wneud yn chwarter 1 2019.
- Mae menter ar y cyd Menter Newydd i adeiladu Wylfa Newydd wedi ei chyhoeddi, a bydd rhagor o fanylion yn cael eu cyflwyno'n ddiweddarach yn y cyfarfod. Yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf, bydd mwy o waith a phresenoldeb i'w gweld ar y safle.
- Creu swyddi – cyflwynwyd manylion y pedwar uwch gyfarwyddwr, roedd 10 prentis wedi'u cyflogi ac fe'u croesawyd ar y safle'r wythnos ddiwethaf. Hefyd, mae pump o raddedigion wedi cael eu cyflogi i weithio rhwng safleoedd Wylfa Newydd a Chaerloyw. Roedd creu swyddi hefyd yn cynnwys cyflogi busnesau lleol i weithio ar y safle.
- Disgwylir y bydd yr ail ymgynghoriad cyn gwneud cais (PAC2) yn cael ei lansio'n ddiweddarach yn ystod haf 2016.
- Mae ymweliadau ag amrywiaeth o sefydliadau allanol – fel ysgolion lleol yn parhau a bydd gan Horizon bresenoldeb proffil uchel yn Sioe Môn eleni.
- Cafodd manylion am roddion elusenol a nawdd â gwerth mwy na £100k eu rhestru eleni. Croesawyd rhagor o geisiadau am nawdd.
- Rhoddwyd cyfle i bawb a oedd yn bresennol i ofyn cwestiynau ac i ychwanegu sylwadau:
 - Roedd **DE** yn teimlo bod y cwmni'n awr yn fwy gweladwy gyda mwy o weithgarwch i ddangos cynnydd h.y. swyddfeydd newydd ar y safle, gwaith yn mynd ymlaen ar y safle a'r uwch benodiadau. Ychwanegodd fod angen llawer o gynllunio a manylder i sefydlu prosiect fel hwn, a bod gwaith yn mynd ymlaen er 2007.
 - Ychwanegodd **DE** fod yr agwedd tuag at ynni niwclear wedi newid yn sylweddol yn ystod y misoedd diwethaf, ac roedd yn credu y byddai'r prosiect yn ychwanegu at economi a chyflogaeth yng Nghymru a'r DU am y 100 mlynedd nesaf.

4. Diweddariad ar ddatblygiad y safle – Daron Hodges, Rheolwr y Safle, Pŵer Niwclear Horizon

- Cyflwynodd **Daron Hodges (DH)**, Rheolwr y Safle, ddiweddariad gyda chymorth sleidiau.
- Dywedodd **DH** fod estyniad swyddfa'r safle'n mynd yn ei flaen yn dda gyda'r gwaith yn cael ei wneud gan gwmni lleol a oedd wedi cael ei is-gontractio gan Elliots, y prif gontractwyr. Roedd hwn yn gyfle ardderchog i fusnesau lleol i arddangos eu gwaith. Byddai gofod y swyddfa newydd dair gwaith yn fwy gyda lle i 80 o staff, ynghyd ag amryw o ystafelloedd ar gyfer cyfarfodydd.
- Gwaith arolygu – mae ymchwiliadau gwaith tir yn cael eu cynnal ar hyn o bryd ym Mhorth-y-Pistyll. Mae ffilm wedi'i gynhyrchu am y gwaith, a bydd ar gael ar sianel Horizon

ar YouTube, lle mae fideos eraill ar gael eisoes. Mae rhagor o ymchwiliadau gwaith tir, ar y lan, hefyd yn cael ei wneud. Roedd y gwaith arolygu sy'n mynd ymlaen ar yr holl safleoedd yn cynnwys: tirwedd, sŵn ac effaith weledol, yr amgylchedd ac ecoleg, yn ogystal â rhagor o gloddio ffosydd archeolegol – a hynny yn y rhan ogleddol. Mae'r ymchwiliadau gwaith tir ar hyd llwybr yr A5025 o'r Fali i'r safle wedi'i gwblhau, heblaw am ragor o fonitro, ac mae disgwyl i archeolegwyr gyrraedd y safle'r wythnos ganlynol.

- Cafwyd manylion am waith sydd yn yr arfaeth ar y safle ac y tu hwnt i hynny, ac mae'n cynnwys gwaith archeolegol i godi uwchbridd mewn mannau o ddiddordeb archeolegol. Mae gwaith yn mynd ymlaen yn Ffordd Nanner hefyd, lle bydd gwelliannau'n cael eu gwneud a lle mae arolygon traffig / trafnidiaeth wedi'u cynnal.
- Nododd **DH** fod Horizon yn gweithio â Scottish Power Energy Networks i ddargyfeirio ceblau ac mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen yn gyflym. Mae disgwyl y bydd National Grid yn cyrraedd y safle ym mis Ionawr 2017 i weithio ar eu gwaith dargyfeirio ceblau eu hunain, ac roedd Dŵr Cymru ar hyn o bryd yn edrych ar waith trin carthffosiaeth gyda llawer o waith yn yr arfaeth yng nghyffiniau Cemaes, gan gynnwys dargyfeirio carthffosydd.
- Cafwyd diweddariad gan **DH** ar broses y gadwyn gyflenwi a nododd nifer o enghreifftiau lle mae cyfleoedd wedi cael eu creu ar gyfer busnesau lleol – gyda llawer ohonynt ar y safle erbyn hyn. Gwahoddodd **DH** gwestiynau o'r llawr.
- Gofynnodd **AMJ** am help gan Horizon. Roedd rhai ardaloedd lleol yn cael problemau ag ansawdd dŵr o ganlyniad i waith roedd Horizon yn ei wneud â Magnox a Dŵr Cymru.
 - Dywedodd **DH** fod Dŵr Cymru yn bwriadu golchi eu pibelli, a bod y lliw yn y dŵr wedi digwydd oherwydd gostyngiad y pwysedd yn y pibelli a oedd wedi digwydd ers amser oherwydd diffyg gwaith cynnal a chadw. Roedd hyn wedi golygu bod gwaddodion wedi cael eu symud. Dywedodd fod cynllun ar waith i gywiro hyn.
- Dywedodd **Medwyn Williams (MW)** o Magnox ei fod yn ymwybodol fod caniatâd cynllunio wedi'i roi i adeiladu canolfan rheoli argyfwng amgen (aecc) a labordy arolygu ardal (dsl). Roedd y gwaith adeiladu wedi'i roi allan i dendr, roedd y gyllideb yn barod, a disgwylir y bydd y gwaith adeiladu'n cychwyn fis Ionawr. Roedd cwmnïau lleol wedi cael eu hannog i gysylltu, a byddai'r cwmnïau hyn hefyd yn cael cymorth i ddatblygu eu hunain fel eu bod mewn cyflwr i allu tendro'n gystadleuol am y gwaith.
 - Gofynnodd y Cadeirydd a fyddai dargyfeirio ceblau National Grid a drafodwyd yn ystod y cyflwyniad yn golygu diwedd ar y dargyfeiriadau ceblau sydd eu hangen ar gyfer y safle. Cadarnhaodd Daron Hodges fod hynny'n wir ac o ganlyniad gallai'r gwaith o baratoi a chlirio'r safle ddechrau yn ystod hanner cyntaf 2017.

5. Diweddariad Hitachi-GE - Lowri Joyce, Rheolwr Cysylltiadau Rhanddeiliaid Rhanbarthol, Hitachi Nuclear Energy Europe, Ltd.

- Argymhellodd **DE** a gwnaeth gais am gyflwyniad ar y pwnc hwn ym mhob cyfarfod ochr yn ochr â chyflwyniadau gan Horizon.
- Cyflwynodd **Lowri Joyce (LJ)**, Rheolwr Cysylltiadau Rhanddeiliaid Rhanbarthol gyda Hitachi Nuclear Energy Europe, Ltd fanylion am brosiect Menter Newydd, menter ar y cyd wedi'i chreu'n unswydd gan Hitachi Nuclear Energy Europe, Ltd ynghyd â'r partneriaid Bechtel Management Company, Ltd. a JGC Corporation (UK) Ltd., sydd â phrofiad o weithio â dros 170 o orsafoedd pŵer niwclear.
- Cafwyd gwybodaeth gan **LJ** am y camau nesaf: yn benodol cydweithio'n agos â chontractwyr Haen 2, datblygu rhaglen hyfforddi ac y byddai eu presenoldeb ym Môn yn cynyddu gam wrth gam, gyda chynnydd sylweddol tua 2018.
- Eglurodd **LJ** fod gwybodaeth am y gadwyn gyflenwi'n cael ei rhannu â rhanddeiliaid allweddol a bod digwyddiad arall ar gyfer y gadwyn gyflenwi, mewn partneriaeth â Horizon, yn cael ei gynllunio.
- Cafwyd diweddariad gan **LJ** ar yr Asesiad Dyluniad Generig (GDA) a dywedwyd fod llawer iawn o waith yn cael ei wneud, a chafwyd manylion am y gwaith hwnnw; roedd adroddiad chwarterol ar gael ar dudalen gartref y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR), sy'n cynnwys rhagor o wybodaeth. Roedd aelodau staff Hitachi yn ymweld yn rheolaidd â safle Wylfa Newydd.
- Gofynnodd **DE** pa bryd fyddai cwmnïau Haen 2 yn cael contractau.
 - Eglurodd **LJ** y byddai hyn yn digwydd yn fuan iawn. Nododd **DE** fod diddordeb mawr yn y niferoedd a'r mathau o bobl a fyddai'n rhan o'r gwaith hwn ac y byddai proffil ohonynt yn cael ei werthfawrogi.
 - Ychwanegodd **LJ** fod Hitachi yn dymuno efelychu Horizon o ran gweithio i warchod a hybu'r diwylliant a'r iaith Gymraeg.
 - Dywedodd **SD** hefyd fod disgwyl rhagor o gyhoeddiadau Menter Newydd cyn bod hir.

6. Diweddariad ar addysg a sgiliau - Claire Burgess, Cydlynnydd y Rhaglen Addysg, Pŵer Niwclear Horizon

- Cyflwynodd **Claire Burgess (CB)**, Cydlynnydd y Rhaglen Addysg gyda Horizon ddiweddariad ar addysg a sgiliau.
- Eglurodd **CB** fod y gwaith sy'n cael ei wneud mewn ysgolion cynradd ac uwchradd y bennaf, a bod pwyslais arbennig ar bynciau STEM (gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg). Roedd yn canolbwyntio ar roi dealltwriaeth i ddisgyblion tra'r oeddent yn ifanc o'r sgiliau a fyddai eu hangen i weithio yn Wylfa Newydd a'r diwydiant ynni ehangach.

- Wrth ymhelaethu ar hyn, amlinellodd **CB** y tair elfen sydd ynghlwm wrth Strategaeth Addysg Horizon: ysbrydoli, ymgysylltu a galluogi. Y nod oedd dangos i ddisgyblion bod Wylfa Newydd yn fwy na pheirianeg yn unig. Byddai'r strategaeth yn cael ei chyflwyno mewn pedwar maes gweithgarwch: allgymorth, partneriaethau, digwyddiadau a'r ganolfan addysg. Roedd nifer o ddigwyddiadau STEM yn yr arfaeth hefyd yn ogystal â'r digwyddiad Big Bang ym Mangor yn ddiweddarach eleni.
- Byddai deunyddiau datblygiad proffesiynol ar gael i athrawon yn ogystal â digwyddiadau a fyddai'n cynnwys rhieni. Bydd yr holl ddeunyddiau ar gael ar-lein ar gyfer eu defnyddio yn y dyfodol. Roedd rhaglen llysgenhadon hefyd yn cael ei sefydlu ac a fyddai'n cynnwys prentisiaid yn dychwelyd i'w hen ysgolion i siarad am eu swyddi â Horizon.
- Dywedodd **CB** fod rhaglen addysg gydlynus a chynaliadwy'n cael ei llunio, gan ei bod yn bwysig bod pynciau'n berthnasol i'r cwricwlwm a'i bod yn ymateb i anghenion yr ysgolion. Byddai deilliannau ac effaith y rhaglen yn cael eu mesur.
- Rhannodd **CB** restr o ymweliadau ag ysgolion a gweithgareddau STEM yn ogystal â'r digwyddiadau gyrfaoedd roedd wedi bod iddynt – roedd hyn yn cynnwys nifer o ddigwyddiadau gyrfaoedd a gynhaliwyd mewn ysgolion uwchradd ym Môn.
- Dywedodd **CB** hefyd fod ymgysylltu diwylliannol hefyd ar waith a bod Horizon yn parhau i gefnogi'r iaith trwy'r rhaglen Menter Môn.
- Dywedodd **CB** na allai Horizon gynnig profiad gwaith i ddisgyblion ysgol yn ystod y cam hwn o'r Prosiect; fodd bynnag, roedd digwyddiad wythnos o hyd wedi'i anelu at bobl ifanc, a oedd yn rhoi golwg iddynt ar waith Horizon wedi cael ei gynnal yng Nghanolfan Ynni Llangefni yn ddiweddar. Roedd y digwyddiad wedi cynnwys ymweliad â safle Wylfa Newydd. Cafodd y digwyddiad adborth positif ac roedd y disgyblion wedi cael prosiect i'w gwblhau yn ystod yr wythnos. Hefyd cyflwynodd **CB** restr o ddigwyddiadau arfaethedig sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm ac a fydd yn cael eu lansio yn ystod yr wythnosau nesaf.
- Dywedodd **Wyn Thomas (WT)** ei fod yn croesawu cydweithrediad Horizon â Grŵp Llandrillo Menai a'i fod yn barod i helpu mewn unrhyw ffordd bosibl.
- Diolchodd **AMJ** i Claire Burgess am ei chyflwyniad a dywedodd y dylid canmol ymrwymiad Horizon i addysg a sgiliau o'r cychwyn cyntaf. Roedd y Prosiect hwn yn bwysig iawn i'r ardal yn yr hyn sydd bellach yn ddyfodol mwy ansicr o safbwynt gwleidyddol.

7. Unrhyw Fater Arall

- Dywedodd **DE** fod pawb a oedd yn bresennol wedi cael manylion am gynigion terfynol National Grid ar gyfer y llwybr ar draws yr ynys. Gwahoddodd **DE Gareth Williams (GW)**, yr Uwch Reolwr Prosiect newydd gyda National Grid, i siarad.

- Disgrifiodd **GW** y gweithgarwch diweddar. Esboniodd fod cyhoeddiad Afon Menai wedi cael ei wneud fis yn ôl a bod National Grid yn awr yn edrych ar yr her dechnegol a fyddai'n gysylltiedig â chysylltu ceblau o dan y Fenai. Roedd dau leoliad posibl ym Môn ac un yng Ngwynedd yn cael eu hystyried ar gyfer gwneud y cysylltiad ac yna cysylltu â phrif gylch Gogledd Cymru rhwng Bangor, Trawsfynydd a Chei Conna. Roedd yn debygol, ond nid oedd hyn wedi'i gadarnhau, y byddai hyn ar ffurf twnnel ceblau. Roedd yr opsiynau ar gyfer ceblau uwchben wedi cael eu diystyru, gan fod yr adborth ar hyn wedi bod yn eithaf cryf. Ni oedd opsiwn ar gyfer yr aliniad a ffefrir wedi'i gadarnhau eto.
- Dywedodd **GW** mai'r cam nesaf oedd cychwyn trafodaethau â thirfeddianwyr sy'n cael eu heffeithio gan seilwaith sy'n agos at eu tir. Y garreg filltir nesaf fyddai ymgynghoriad statudol Adran 42, a fyddai'n cloi tua phum mlynedd o ymgysylltu anffurfiol â phobl leol. Roedd cam y cais ffurfiol yn debygol o ddigwydd yn ystod yr hydref hwn ac roedd tîm cyfathrebu National Grid yn cydweithio'n agos â Horizon ar y gwaith hwn.
- O safbwynt rhaglen, roedd National Grid yn gobeithio cyflwyno cais cynllunio yn hydref 2017.
- Awgrymodd **DE** y dylai National Grid roi rhagor o gyflwyniadau'n ddiweddarach ar y datblygiadau; croesawodd **GW** y gwahoddiad hwn.
- Gofynnodd **DE** pa bryd fyddai rhagor o wybodaeth ar gael.
 - Dywedodd **GW** y byddai rhagor o wybodaeth ar gael yn hydref 2016.
- Dymunodd **AMJ** bob llwyddiant i **GW** yn ei swydd newydd a derbyniodd fod yn rhaid i'r ynni adael yr ynys fel rhan o'r prosiect. Fodd bynnag, apeliodd ar National Grid, gan ddweud nad oeddent yn gwrando ar adborth a gofynnodd iddynt ystyried ceblau tanddaearol ar draws yr ynys gyfan. Ychwanegodd y Cyng Jones fod yn rhaid iddynt gynnig awgrymiadau priodol ar gyfer ceblau tanddaearol ac na fyddai cymunedau lleol yn hapus gyda pheilonau.
- Gofynnodd **DE** am ragor o wybodaeth am gyfnewidfeydd. Dywedodd **GW** fod hyn yn annhebygol o fod o dan y ddaear a bod gwaith yn cael ei wneud i edrych ar y posibilrwydd o ddefnyddio ceblau uwchben a pheilonau presennol. Dywedodd ei fod yn waith eithaf cymhleth. Nid oedd disgwyl y byddai unrhyw beilonau newydd a gynigid yn ddim mwy nac yn wahanol i'r peilonau presennol.
- Gofynnodd y **Cyng John Griffith (JG)** am fanylion am adborth preswylwyr Môn ar ymgynghoriadau National Grid a gofynnodd beth oedd 'mwyafrif' preswylwyr Môn wedi'i ddweud yr hoffent ei gael. Ychwanegodd **JG** er gwaethaf yr holl drafodaethau a'r arsylwadau lleol, nid oedd National Grid yn mynd i wrando ar y farn ddemocrataidd bod y bobl yn 'gwbl wrthwynebus' i beilonau
 - Roedd **GW** yn cydnabod na fyddai llawer o bobl yn hapus o weld peilon newydd yn eu hardal. Ychwanegodd fod National Grid yn dilyn canllawiau cynllunio cenedlaethol ac mai eu dehongliad o'r canllawiau a oedd wedi eu harwain i'r

pwynt hwn. Cytunodd nad oedd yn boblogaidd ond dyna'r llwybr yr oedd yn rhaid i National Grid ei ddilyn.

- Dywedodd **JG** ei fod yn credu mai dim ond buddiannau eu cyfranddalwyr oedd yn bwysig i National Grid a holodd a fyddai National Grid yn cynnig 'yr opsiwn gorau ynteu dim ond yr opsiwn rhataf?'
- Pwysleisiodd **GW** eto eu bod yn dilyn canllawiau cynllunio a'u bod yn gwneud eu gorau o fewn y canllawiau hynny. Roedd yn derbyn nad oedd y prosiect yn boblogaidd yn lleol ond pwysleisiodd nad yr opsiwn rhataf oedd y cynigion presennol.

- Diolchodd **DE** i **GW** am ei gyflwyniad.
- Cododd **DE** un mater arall; roedd Mr Alan Smith o Pŵer Niwclear Horizon yn ymddeol a gofynnodd am gefnogaeth y grŵp i ysgrifennu ato i ddiolch iddo am ei waith ardderchog i sicrhau bod y prosiect wedi cyrraedd y cam presennol. Derbyniodd y grŵp y cynnig hwn.

8. Cloi

- Daeth y cyfarfod i ben am 19.12